JAMES, JOHN LLOYD ('Clwydwenfro '; 1835 - 1919), gweinidog gyda'r Annibynwyr a hanesydd

Enw: John Lloyd James
Ffugenw: Clwydwenfro
Dyddiad geni: 1835
Dyddiad marw: 1919
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr a hanesydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd ym mhlwyf Llangan, Sir Benfro, a maged ef (wedi iddo golli ei rieni) gan ei daid yn Llanglydwen, Sir Benfro. Bu yn ysgol Glandwr dan ' Shôn Gymro ' a'r Parch. W. Davies, Rhydyceisiaid. Derbyniwyd ef yn aelod yn Hebron, Penfro, ym Mehefin 1848, a dechreuodd bregethu yno 14 Awst 1853. Bu yng Ngholeg Caerfyrddin, 1855-9. Ordeiniwyd ef, 18 Rhagfyr 1859, yn Llansantffraid-ar-Lai, Sir Forgannwg, a chymerth ofal Eglwys Newydd (Whitchurch) a'i ordeinio yno 2 Chwefror 1860. Bu'n gweinidogaethu yn Capel Ifor, Dowlais, 1869-75, Moreton-in-Marsh, sir Gaerloyw, 1875-9, March, sir Gaergrawnt, 1879-95 a 1899-1902. Ymneilltuodd yn 1915 a bu farw 17 Ebrill 1919.

Bu'n gymwynaswr hael ei ysgrifau i lenyddiaeth gylchgronol Cymru. Cyhoeddwyd stori o'i eiddo, ' Edwin Powel,' yn *Seren Cymru*, 1856-7. Bu'n golygu *Cyfaill y Werin*, 1862, a cholofn barddoniaeth *Y Twr* (Aberdâr) am dymor. Ysgrifennodd lawer i'r *Beirniad* (yr hen), *Y Tywysydd*, *Y Diwygiwr*, a *Cennad Hedd*. Ei faes arbennig oedd hen hanesion lleol ac eglwysig a phortreadu hen gymeriadau megis ' Siams Dafydd.' Ei ddau brif waith oedd *Hanes Cymanfaoedd yr Annibynwyr*, 1867-9, pum rhan, a *Hanes Eglwys Glandwr*, 1902.

Cyhoeddwyd ei nofel *Habakkuk Crabb* yn Lerpwl yn 1901. Rhoddwyd iddi glawr gwahanol yn ddiweddarach gyda theitl newydd - *Croesi'r Bont, sef anturiaethau H.C.*

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

The Congregational Year Book, 1903

Oriel Coleg Caerfyrddin (1909), 84

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 285, 368, 411; iii, 74; v, 224

NLW MS 10328

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 48146936764813782062

Wikidata: Q20733553

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu